

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 14 Gorffennaf, 2023.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorwyr H.C. Hamilton, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: E. Ayres (Ymgeisydd), Y. Witchell (Swyddog Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg), K. Brooks (Swyddog Trwyddedu, Bro Morgannwg) ac A. Rudman (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, Cyngor Bro Morgannwg).

EITEM AGENDA 1. PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – BOD Y Cyngorydd M.J.G. Morgan gael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawriad yr Is-bwyllgor

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. DEDDF TRWYDDEDU 2003 – RHOI TRWYDDED SAFLE – BOULDERS, CULVERHOUSE CROSS, CF5 6EH –

PENDERFYNWYD – Caniatáu'r cais, fel y'i diwygiwyd.

Rhesymau dros y penderfyniad

Wrth ddod i'r penderfyniad mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Rydym wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor. Mae rhagdybiaeth yn y gyfraith y dylid rhoi trwyddedau ac os bydd materion sy'n ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu yn codi gellir adolygu'r drwydded, yn seiliedig ar dystiolaeth o'r diffyg cydymffurfiaeth â'r amcanion.

Yr oriau a ganiateir ar gyfer gwerthu alcohol y gwnaed cais amdano oedd 12:00 i 23:00 bob diwrnod o'r wythnos, ac ni wnaed cais am amseriadau ansafonol. Fodd bynnag, ar 25 Mai 2023, diwygiodd yr Ymgeisydd y cais i leihau'r oriau a ganiateir i 12:00 i 22:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 12:00 i 20:30 ddydd Sadwrn a 12:00 i 18:30 ddydd Sul. Mae'r Ymgeisydd hefyd wedi dileu gwerthiannau o'r cais.

Yr unig wrthwynebiad i'r gweithgaredd trwyddedadwy y gwnaed cais amdano oedd argaeledd alcohol yn arwain at anaf i bobl o dan ddylanwad tra'n defnyddio'r cyfleuster chwaraeon. Byddai rhoi'r drwydded ond yn caniatáu gweithrediad cyfreithlon presennol y busnes gan ychwanegu darpariaeth gwerthu alcohol yn ardal y caffi ar gyfer cwsmeriaid cofrestredig yn unig. Byddai gwerthiant alcohol yn cael ei gyfyngu i'r oriau gwerthu diwygiedig, camau arfaethedig i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel y'i nodir yn yr amserlen weithredu ceisiadau yn ogystal â mesurau diogelwch sydd eisoes wedi'u sefydlu a llym a weithredir gan y busnes. Nodwyd na fyddai gwerthiannau ar gyfer eu hyfed oddi ar y safle yn cael eu caniatáu chwaith.